Gweiddi

**Tasg 1**

# Torri calon

Mewn grŵp, darllenwch gerdd y bardd Aled Lewis Evans. Wedyn, trafodwch gynnwys y gerdd gan sôn am beth sy'n digwydd ynddi. Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo? Ydy'r bardd wedi adrodd y stori mewn ffordd effeithiol?

Beth am gynllunio eich cerdyn eich hun, fel y gwnaeth Melanie, i rywun sy'n annwyl iawn i chi i ddangos eich torcalon.

**Y Cerdyn Olaf**

Fe ddaeth hi â'r cerdyn olaf,
yn un efo'r galon fawr arni,
a'r addewid ei bod hi'n caru mam am byth.

Bu'n ei liwio'n galonnau amryliw mawr
tra curai calon ei mam
â chymorth y peiriant-cynnal-bywyd.

Melanie mor ddewr yn wynebu'r farwolaeth,
gan mai mater o oriau, dyddiau fyddai.
Cafodd ganiatâd i beidio â mynd i Gwyddoniaeth
er mwyn lliwio'r calonnau.

Lliwio'r cerdyn sbesial
i'w roi yn yr amlen
ar y daith olaf at wely'r fam,
na fyddai (efallai) yn sylwi
ar fodolaeth cerdyn mor hardd.

Ond i Melanie,
fe fydd Mam
yn deall y cwbl sydd i'w ddeall
ar ôl darllen ei cherdyn.

*Aled Lewis Evans* (*Fesul Gair,* Gomer)